# Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft

## Datganiad o fwriad y polisi ar gyfer is-ddeddfwriaeth


***Cyflwyniad*** ______ ***3***

***Trosolwg o bwerau is-ddeddfwriaeth*** ______ ***4***

***Categorïau cofrestru*** ______ ***6***

***Amodau cofrestru*** ______ ***8***

***Datgofrestru*** ______ ***10***

***Ffioedd, cyrsiau cymhwysol, a phersonau cymhwysol*** ______ ***11***

***Cynlluniau mynediad a chyfle a therfynau ffioedd*** ______ ***13***

***Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch*** ______ ***16***

***Arolygu addysg bellach a hyfforddiant*** ______ ***18***

***Adolygu rheoliadau a phenderfyniadau*** ______ ***20***

***Monitro cynaliadwyedd ariannol*** ______ ***22***

***Sicrhau a chyllido addysg drydyddol*** ______ ***24***

***Prentisiaethau*** ______ ***28***

***Cwynion dysgwyr*** ______ ***31***

***Rhannu data*** ______ ***32***

***Llywodraethu AU – offerynnau ac erthyglau Llywodraeth ar gyfer Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru*** ______ ***33***

***Y Brifysgol Agored*** ______ ***35***

***Amrywiol a chyffredinol*** ______ ***36***

# Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r pwerau ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i hamlinellu yn y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft, fel y'i cyflwynwyd i Senedd Cymru ar X dyddiad 2020.

Mae'r papur yn egluro pam y dewiswyd y pwerau hyn, polisi cyfredol y llywodraeth ar gyfer defnyddio'r pwerau hyn, a'r cyfiawnhad dros weithdrefn y Senedd a ddewiswyd.

Bydd rheoliadau a wneir gan ddefnyddio'r pwerau hyn yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol yn y sector addysg drydyddol. Bwriad y ddogfen hon yw rhoi cyfle cychwynnol i randdeiliaid gynnig adborth ar y defnydd arfaethedig o'r pwerau hyn er mwyn sicrhau polisi cadarn ac effeithiol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried y defnydd o bwerau yn y Bil drafft fel y nodir isod ac maent yn fodlon eu bod yn angenrheidiol ac yn gyfiawn.

### Trosolwg o'r Bil drafft

Mae'r Bil drafft yn cynnwys 7 Rhan a 4 Atodlen.

- Mae Rhan 1 yn sefydlu corff cyhoeddus Cymreig hyd braich newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn"), yn diddymu Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ac yn amlinellu'r Genhadaeth Ddinesig
- Mae Rhan 2 yn amlinellu swyddogaethau rheoleiddio'r Comisiwn o ran cofrestr o Ddarparwyr Addysg Drydyddol, gweithdrefn gofrestru ar gyfer Darparwyr Addysg Drydyddol, proses gymeradwyo'r Comisiwn ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Chyfle, fframweithiau sicrhau ansawdd
- Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru ariannu'r Comisiwn ac i'r Comisiwn i ariannu addysg drydyddol ac ymchwil, mae hefyd yn gosod y Comisiwn o dan ddyletswyddau i sicrhau cyfleusterau ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant
- Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â Phrentisiaethau Cymru
- Mae Rhan 5 yn cynnwys y darpariaethau ar gyfer diogelu dysgwyr, gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â dysgwyr
- Mae Rhan 6 yn cynnwys dyletswyddau a phwerau'r Comisiwn o ran gwybodaeth a data
- Mae Rhan 7 yn cynnwys darpariaethau amrywiol, gan gynnwys diddymu corfforaethau addysg uwch yng Nghymru.

### Dogfennaeth arall

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r canlynol:

- Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil drafft
- Nodiadau Esboniadol i'r Bil drafft
- Memorandwm Esboniadol i'r Bil drafft, yn enwedig penodau 3 a 5

## Trosolwg o bwerau is-ddeddfwriaeth

Mae’r Bil drafft yn cynnwys 46 o ddarpariaethau unigol sy’n ymwneud â phwerau llunio rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys 18 o bwerau a etifeddwyd yn bennaf o ddeddfwriaeth gyfredol.

**Pwerau a etifeddwyd o ddeddfwriaeth gyfredol**

Mae’r pwerau hynny sy’n addasu neu sy’n seiliedig ar bwerau presennol i wneud rheoliadau yn cael eu hetifeddu’n bennaf o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

| Maes polisi | Adran | Deddfwriaeth gyfredol |
|---|---|---|
| Ffioedd, cyrsiau cymhwysol a phersonau cymhwysol | 18(6) | DAU(C) 2015 – 5(2)(b) |
| | 18(10)(b) | DAU(C) 2015 – 5(5)(b) |
| | 18(12) | DAU(C) 2015 – 5(9) |
| | 34(4) | DAU(C) 2015 – 5(3) |
| | 77 | DAU(C) 2015 – 57(1) |
| Cynlluniau mynediad a chyfle a therfynau ffioedd | 33(2) | DAU(C) 2015 – 4(3) |
| | 35(1) | DAU(C) 2015 – 6(1) |
| | 36(4) | DAU(C) 2015 – 7(3) |
| | 40(7) | DAU(C) 2015 – 37(7) |
| Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch | 46(8) | DAU(C) 2015 – 17(4)(A) |
| Arolygu addysg bellach a hyfforddiant | 49(1)(f) | DDS 2000 – 75(1)(e) |
| | 49(4) | DDS 2000 – 77(2) |
| | 53(1) | DDS 2000 – 76(4) |
| | 55(9) | DDS 2000 – 83(7) |
| Adolygu rheoliadau a phenderfyniadau | 71(3) | DAU(C) 2015 – 44(3) |
| Amrywiol a chyffredinol | 76(4) | DAU(C) 2015 – 3(4) |
| Llywodraethu AU | 125(2) | DDA 1988 – paragraffau 2 i 11 o Atodlen 7A |
| | 126(2) | DDA 1988 – 125(2) i (4) |
| Amrywiol a chyffredinol | 132 | ddim yn gymwys |
| | 134 | ddim yn gymwys |

Mae acronymau yn cyfeirio at:

- DAU(C) 2015 – Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
- DDS 2000 – Deddf Dysgu a Sgiliau 2000
- DDA 1988 – Deddf Diwygio Addysg 1988

**Pwerau is-ddeddfwriaeth newydd**

Mae’r pwerau dirprwyedig newydd yn hanfodol er mwyn sicrhau fframwaith rheoleiddio ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru sy’n diogelu at y dyfodol ac y gellir ei ddiwygio i ddiwallu anghenion yn y dyfodol megis newidiadau yn y sector neu flaenoriaethau ariannu. Mae’n hanfodol bod rheoliadau trwyadl ac effeithiol yn hyblyg i ganiatáu mynediad i ffynonellau amrywiol o arian cyhoeddus ar gyfer addysg

drydyddol, gan gynnwys categorïau cofrestru, cymorth grant ac arian gan y Comisiwn arfaethedig.

Disgwylir i’r sector addysg drydyddol esblygu a newid o ran maint a siâp dros amser, ac mae angen y pwerau hyn i sicrhau y gall rheoleiddio’r sector esblygu yn unol â hynny.

| **Maes polisi** | **Adran** |
|---|---|
| Categorïau cofrestru | 11(3) |
| | 11(6) |
| | 11(9) |
| Amodau cofrestru | 13(3) |
| | 18(1) |
| | 20 |
| Datgofrestru | 27(2) |
| | 27(6) |
| | 29(13) |
| Cynlluniau mynediad a chyfle | 34(4) |
| Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch | 46(5) |
| Monitro cynaliadwyedd ariannol | 72(1)(c) |
| | 72(2) |
| Sicrhau a chyllido addysg drydyddol | 80(3) |
| | 80(4) |
| | 81(1) |
| | 88(5) |
| | 89(5) |
| | 94(3) |
| | 95(4) |
| Prentisiaethau | 98(4) |
| | 99(1)(c) |
| | 100(1) |
| | 106(6) |
| | 107(3) |
| | 112(5) |
| Cwynion dysgwyr | 116(2) |
| Rhannu data | 120(1)(l) |
| Llywodraethu AU | 125(2) |
| | 126(2) |
| Y Brifysgol Agored | 131 |

## Categorïau cofrestru

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 11(3) | Ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid gwneud darpariaeth ar eu cyfer yn y gofrestr o sefydliadau addysg drydyddol. | Cadarnhaol |
| 11(6) | Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wahardd cofrestru sefydliad mewn un categori o'r gofrestr ar yr un pryd ag y mae wedi ei gofrestru mewn un neu ragor o'r categorïau eraill. | Negyddol |
| 11(9) | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yng nghofrestr sefydliad yn y gofrestr. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau hyn yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth bennu categorïau cofrestru gwahanol, pa un a yw sefydliadau yn gallu cael eu gwahardd rhag cofrestru mewn categorïau cofrestru lluosog, a'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ar y gofrestr.

**Diben a bwriad y polisi**

Bydd y Gofrestr Sefydliadau Addysg Drydyddol yn fecanwaith hyblyg ar gyfer rheoleiddio'r sector addysg drydyddol yng Nghymru mewn modd cymesur ac atebol. Yn benodol, bydd y gofrestr yn sicrhau rheoleiddio priodol ar gyfer sefydliadau addysg drydyddol yng Nghymru y mae eu cyrsiau wedi'u dynodi at ddibenion cymorth i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998.

Polisi cyfredol y llywodraeth yw rhagnodi dau gategori o gofrestriad mewn rheoliadau o dan adran 11(3):

- Darparwyr Addysg Uwch (Sylfaenol) – Bydd sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd myfyrwyr a chymorth cynnal a chadw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel ffioedd is, £6165 y flwyddyn ar hyn o bryd, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (gweler 'Cymorth i fyfyrwyr'). Bydd sefydliadau yn y categori hwn yn destun amodau cofrestru a amlinellir isod (gweler 'Amodau cofrestru').
- Darparwyr Addysg Uwch (Uwch) - Bydd sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn yn gymwys i gael eu dynodi'n awtomatig ar gyfer cymorth ffioedd myfyrwyr a chymorth cynnal a chadw gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrsiau addysg uwch ar lefel y ffi uwch, sef £9000 y flwyddyn ar hyn o bryd, a ddarperir o dan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (gweler 'Cymorth i fyfyrwyr'). Bydd sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yn y categori hwn hefyd yn gymwys i gael arian grant addysg uwch gan y Comisiwn (gweler 'Ariannu'). Bydd darparwyr yn y categori hwn yn destun amodau cofrestru a amlinellir yn y Bil drafft ac mewn rheoliadau (gweler 'Amodau cofrestru').

At hynny, bwriedir rhagnodi o dan adran 11(6) mai dim ond mewn un o'r categorïau y gall darparwyr gofrestru: Sylfaenol neu Uwch.

Nid yw’n bolisi cyfredol gan y llywodraeth i greu unrhyw gategorïau ar gyfer sefydliadau nad ydynt yn darparu addysg uwch. Bydd y darparwyr hyn yn parhau i gael eu rheoleiddio’n bennaf trwy’r telerau a’r amodau sy’n gysylltiedig ag arian grant a dderbynnir gan y Comisiwn. Fodd bynnag, mae’r Bil yn caniatáu i gategorïau cofrestru newydd ac amodau cysylltiedig gael eu creu yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys categorïau cofrestru darparwyr addysg bellach nad ydynt yn darparu addysg uwch, darparwyr prentisiaethau a hyfforddiant, a mathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol, os bydd newidiadau yn y dyfodol o ran ariannu a blaenoriaethau rheoleiddio yn y sector.

Bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn galluogi i gategorïau newydd o gofrestriad gael eu creu er mwyn bod yn gymwys i wahanol fathau o ddarparwyr addysg drydyddol os yw rheoleiddio o’r fath yn briodol. Bydd hefyd yn galluogi i’r categorïau presennol gael eu diwygio neu eu dileu o bryd i’w gilydd. Gall hyn fod yn angenrheidiol os caiff mathau newydd o gyllid cymorth i fyfyrwyr eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru i gefnogi ehangu cyfleoedd addysg ôl-orfodol, megis mewn addysg a hyfforddiant technegol a galwedigaethol nad ydynt yn radd uwch. At hynny, mae strwythur cyllido (ac o ganlyniad rheoleiddio priodol) addysg drydyddol (yn arbennig addysg uwch) ledled y DU wedi newid yn aml yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda newidiadau yng ngweinyddiaethau eraill y DU yn aml yn cael effaith ar bolisi ariannu yng Nghymru.

Mae’r newidiadau hyn wedi digwydd ar gyfradd sy’n gynt na’r hyn sy’n briodol neu’n ymarferol i’r Llywodraeth Cymru ymateb gyda deddfwriaeth sylfaenol ynghylch manylion rheoleiddio ym mhob achos. Felly, dylai’r Bil drafft hwn alluogi i fanylion y fframwaith rheoleiddio gael eu newid mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn strwythur neu gyllid y sector trydyddol yng Nghymru..

## Amodau cofrestru

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 13(3) | Pŵer i ddarparu ar gyfer amodau cofrestru cychwynnol pellach ar gyfer unrhyw gategori cofrestru. Gall y rhain gynnwys amodau a restrir yn adran 13(4) (b). | Cadarnhaol |
| 18(1) | Pŵer i bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid i'r Comisiwn osod amodau cofrestru parhaus ar sefydliadau mewn perthynas â hwy, yn ymwneud â chael (a chydymffurfio â) cynllun mynediad a chyfle. | Cadarnhaol |
| 20 | Pŵer i ddarparu ar gyfer rhagor o amodau cofrestru parhaus gorfodol. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau hyn yn caniatáu ar gyfer is-ddeddfwriaeth i nodi'r amodau cofrestru gorfodol yn ogystal â'r amodau hynny sydd wedi'u nodi yn y Bil drafft. Mae'r rhain yn cynnwys amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus, a phŵer i bennu'r categorïau cofrestru y dylid cymhwyso amod cynllun mynediad a chyfle iddynt.

**Diben a bwriad y polisi**

Yn ogystal â'r amodau cofrestru cychwynnol a amlinellir yn adran 13(1), mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i'r amodau cofrestru cychwynnol canlynol fod yn gymwys i'r categorïau cofrestru priodol.

<u>Darparwyr Addysg Uwch (Sylfaenol) – amod cychwynnol pellach</u>

- **Cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr** – Bydd y rheoliadau yn darparu ar gyfer amod cofrestru cychwynnol ar gyfer y categori hwn sy'n ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir i ddarpar fyfyrwyr am sefydliad, ei gyrsiau, a thelerau ac amodau ei gontractau gyda myfyrwyr. Bydd yr amod cofrestru hwn yn galluogi'r Comisiwn i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy'n ceisio cofrestru ddangos eu bod yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau o dan gyfraith defnyddwyr, ac yn benodol gydag unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer darparwyr addysg uwch gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd.

<u>Darparwyr Addysg Uwch (Uwch) – amodau cychwynnol pellach</u>

- **Cydymffurfio â chyfraith defnyddwyr** – bydd yr amod rheoleiddio hwn hefyd yn berthnasol i'r categori cofrestru Uwch.
- **Statws elusennol** – Bydd y rheoliadau yn darparu ar gyfer amod cofrestru cychwynnol ar gyfer y categori hwn sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fod yn elusen. Byddai hyn yn parhau â'r polisi cyfredol a sefydlwyd gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau 'a reoleiddir' yng Nghymru fod yn sefydliadau elusennol.

Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd rheoliadau a wneir o dan adran 18(1) yn nodi y dylai amod mewn perthynas â Chynllun Mynediad a Chyfle fod yn gymwys fel

amod cofrestru parhaus i sefydliadau a gofrestrwyd yn y categori Darparwyr Addysg Uwch (Uwch).

Drwy hynny, o dan adran 18(2), bydd unrhyw sefydliadau o'r fath sy'n darparu cyrsiau cymhwysol yn ddarostyngedig i amod cofrestru Terfyn Ffioedd.

Canlyniad arall i'r rheoliadau hyn fyddai y byddai sefydliadau sydd wedi'u cofrestru yn y categori Darparwyr Addysg Uwch (Sylfaenol) yn destun datganiad cyfle cyfartal fel y nodir yn adran 19.

Nid yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn bwriadu darparu, o dan adran 20, ar gyfer unrhyw amodau cofrestru parhaus pellach ar gyfer unrhyw gategori cofrestru.

Mae'r system reoleiddio a grëir gan y Bil drafft wedi'i chynllunio i fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac felly mae'n rhaid caniatáu iddi addasu i amgylchiadau sy'n newid. Gall y bydd angen creu amodau cofrestru cychwynnol a pharhaus newydd sy'n berthnasol i wahanol gategorïau o gofrestru yn ogystal â'r rhai a nodir mewn deddfwriaeth sylfaenol o bryd i'w gilydd, mewn ymateb i anghenion rheoleiddio sy'n newid.

Ceir rhagor o fanylion am yr amodau cofrestru ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol.

## Datgofrestru

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 27(2) | Pŵer i nodi amgylchiadau pellach lle y mae’n rhaid i’r Comisiwn ddileu sefydliad o gategori yn y gofrestr neu bob categori o’r gofrestr | Cadarnhaol |
| 27(6) | Pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â symud sefydliad o gategori o’r gofrestr. | Dim gweithdrefn |
| 29(13) | Pŵer i wneud darpariaethau trosiannol neu arbed mewn cysylltiad â symud sefydliad yn wirfoddol neu’n gydsyniol o gategori’r gofrestr. | Dim gweithdrefn |

**Disgrifiad o’r pwerau**

Mae’r pwerau hyn yn galluogi is-ddeddfwriaeth i ddarparu ar gyfer amgylchiadau penodol, yn ychwanegol at y rhai a nodir yn y Bil drafft, lle mae’n rhaid tynnu sefydliad oddi ar y gofrestr neu o gategori o’r gofrestr, ac ar gyfer gwneud darpariaethau trosiannol ac arbed pan gaiff sefydliad ei ddileu o’r gofrestr, boed hynny’n orfodol neu’n wirfoddol.

**Diben a bwriad y polisi**

Bwriedir i’r pŵer o dan adran 27(2) sicrhau bod unrhyw amgylchiadau sy’n dod i’r amlwg a allai fynnu bod sefydliad cofrestredig yn cael ei dynnu oddi ar y gofrestr neu gategori penodol o’r gofrestr yn cael eu pennu mewn deddfwriaeth.

Bwriedir i’r pwerau o dan adrannau 27(6) a 29(13) sicrhau bod arian cyhoeddus a buddiannau myfyrwyr yn cael eu diogelu os bydd darparwr yn peidio â bod ar y gofrestr. Gall hyn gynnwys sicrhau bod y Comisiwn yn cadw rhai pwerau rheoleiddio mewn perthynas â darparydd a ddatgofrestrwyd, neu fod rhai ffrydiau ariannu yn parhau i fod ar gael dros dro i fyfyrwyr darparydd a ddatgofrestrwyd er mwyn sicrhau parhad a chwblhad y cwrs.

Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn a dim ond mewn amgylchiadau prin ac eithriadol y disgwylir iddynt gael eu defnyddio.

## Ffioedd, cyrsiau cymhwysol, a phersonau cymhwysol

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 18(6) | Pŵer i bennu beth yw cwrs cymhwysol. | Negyddol |
| 18(10)(b) | Pŵer i bennu pwy sy'n berson cymhwysol at ddibenion talu ffioedd cwrs rheoleiddiedig. | Negyddol |
| 18(12) | Pŵer i bennu pryd y mae ffioedd sy'n daladwy i ddarparydd mewn perthynas â chwrs y mae'n ei ddarparu ar ran sefydliad cofrestredig i'w trin fel pe baent yn daladwy i'r sefydliad cofrestredig at ddibenion terfynau ffioedd. | Negyddol |
| 34(4) | Pŵer i bennu'r uchafswm na all y terfyn ffioedd a bennir mewn cynllun mynediad a chyfle fod yn uwch nag ef. | Cadarnhaol |
| 77 | Pŵer i bennu eithriadau pellach i'r diffiniad o 'ffioedd' at ddibenion Rhan 2. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu disgrifiad o 'gyrsiau cymhwysol' a 'phersonau cymhwysol' at ddibenion rheoleiddio'r terfyn ffi dysgu uchaf ar gyrsiau cymhwysol a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau cofrestredig. Maent hefyd yn galluogi rheoliadau i bennu amgylchiadau pan fo ffioedd a delir i berson sy'n darparu cwrs ar ran sefydliad cofrestredig i'w trin fel pe baent yn cael eu talu i'r sefydliad cofrestredig at ddibenion terfynau ffioedd.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau tebyg ar hyn o bryd o dan adrannau 5 a 57 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r rheoliadau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu bod terfynau ffioedd yn gymwys i wahanol gyrsiau neu grwpiau gwahanol o fyfyrwyr mewn ymateb i unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r ffyrdd y mae sefydliadau addysg uwch yn codi ffioedd yng Nghymru, a hefyd unrhyw newidiadau ar ffurf y cymorth i fyfyrwyr a gynigir gan Lywodraeth Cymru. Er mai dim ond mewn perthynas ag addysg uwch y bydd hyn yn cael ei ddefnyddio yn y lle cyntaf, gellir ei ymestyn i rai cyrsiau addysg bellach yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, rhagnodir cyrsiau cymhwysol yn Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015.

Personau cymhwysol yw'r personau hynny sydd, ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd berthnasol, yn dod o fewn yr Atodlen i reoliadau 2015, ac eithrio'r personau hynny nad ydynt yn gymwys i gael cymorth o dan yr eithriadau a restrir.

Mae adran 18(12) o'r Bil drafft yn sicrhau, pan fydd gan sefydliadau cofrestredig gyrsiau a gyflenwir ar eu rhan trwy drefniant is-gontractio neu fasnachfraint, na all darparwyr osgoi'r terfyn ffioedd dysgu statudol. Caiff rheoliadau eu gwneud o dan yr adran hon i sicrhau nad yw'r amrywiaeth o drefniadau masnachfraint cymhleth a all

fodoli yn y sector addysg uwch yn creu unrhyw amgylchiadau lle gellir osgoi'r terfyn ffioedd.

Er nad oes unrhyw gynlluniau i eithrio mathau eraill o ffi o'r diffiniad o "ffioedd" gan ddefnyddio'r pŵer o dan adran 77 ar hyn o bryd, bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n gyson yn unol â newidiadau i'r ffordd y mae sefydliadau'n codi ffioedd ar fyfyrwyr.

Mae rhagnodi disgrifiadau o 'gyrsiau cymhwysol' a 'phersonau cymhwysol' yn fater technegol y mae'n debygol y bydd angen ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd. Dim ond mewn ymateb i ffurfiau esblygol o fasnachfraint a threfniadau is-gontractio rhwng darparwyr addysg drydyddol y bydd angen unrhyw reoliadau a wneir o dan adran 18(12).

Mae'r mathau o ffi, a sut maent yn cael eu codi, yn debygol o newid dros amser ynghyd â newidiadau i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Bydd y pŵer o dan adran 77 yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb i'r newidiadau hyn er mwyn sicrhau bod y fframwaith rheoleiddio a sefydlir o dan y Bil drafft yn dal i weithredu'n effeithiol.

## Cynlluniau mynediad a chyfle a therfynau ffioedd

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 33(2) | Pŵer i bennu'r cyfnod hwyaf y mae cynllun mynediad a chyfle yn cael effaith mewn perthynas ag ef. | Negyddol |
| 35(1) | Pŵer i bennu cynnwys angenrheidiol cynlluniau mynediad a chyfle yn ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal neu hyrwyddo addysg drydyddol. | Cadarnhaol |
| 36(4) | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch materion y bydd yn rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch cymeradwyo, gwrthod neu amrywio cynllun mynediad a chyfle. | Cadarnhaol |
| 40(7) | Pŵer i wneud rheoliadau ynghylch y cyfnod (a bennir mewn hysbysiad gwrthod cymeradwyo) pan na fydd y Comisiwn yn cymeradwyo cynllun mynediad a chyfle newydd cyn ei ddiwedd; y materion y mae'n rhaid i'r Comisiwn eu hystyried wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad neu dynnu hysbysiad na fydd yn cymeradwyo cynllun yn ôl; a'r gweithdrefnau i'w dilyn. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â materion amrywiol sy'n ymwneud â chynlluniau mynediad a chyfle ac uchafswm y ffi dysgu.

- Mae adran 33(2) yn galluogi rheoliadau i bennu'r cyfnod hwyaf y gall cynllun mynediad a chyfle gael effaith.
- Mae adran 34(4) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu uchafswm y ffi y caniateir ei chodi am bob 'cwrs cymhwysol' (fel y nodir gan reoliadau a wneir o dan adran 18(6)) a ddarperir gan sefydliadau cofrestredig sy'n ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd.
- Mae adran 35(1) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru bennu mewn rheoliadau bod yn rhaid i gynllun mynediad a chyfle mewn perthynas â sefydliad gynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl yng Nghymru neu hyrwyddo addysg drydyddol berthnasol a ddarperir yng Nghymru.
- Mae adran 36(4) yn galluogi rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth gymeradwyo neu wrthod cynllun mynediad a chyfle neu amrywiad i gynllun o dan yr adran hon.
- Mae adran 40(7) yn galluogi rheoliadau i bennu'r cyfnod y caniateir ei bennu mewn hysbysiad o dan yr adran hon; y materion sydd i'w hystyried gan y Comisiwn wrth benderfynu pa un ai i roi hysbysiad neu ei dynnu'n ôl o dan yr adran hon; a'r weithdrefn sydd i'w dilyn mewn cysylltiad â thynnu hysbysiad yn ôl.

Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru bwerau tebyg i wneud rheoliadau mewn perthynas â Chynlluniau Ffioedd a Mynediad o dan adrannau 4(2), 5, 6, 7 a 37 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Diben a bwriad y polisi**

Cyfnod hwyaf ar gyfer cynllun mynediad a chyfle

Mae Deddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol mai dwy flynedd yw'r cyfnod hwyaf y gall cynllun ffioedd a mynediad fod yn gymwys iddo. Ar hyn o bryd, mae CCAUC yn gofyn am gynlluniau bob blwyddyn. Polisi cyfredol Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoliadau sydd i'w gwneud o dan adran 33(2) yw pennu cyfnod estynedig o bum mlynedd ar ei hiraf. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhesymeg dros y newid hwn yn y Memorandwm Esboniadol.

Uchafswm y ffi dysgu

Rheoliadau Addysg Uwch (Symiau) (Cymru) 2015 sy'n penderfynu faint o gymorth ffioedd i'w ddarparu ar gyfer cyrsiau cymhwysol gan sefydliadau a reoleiddir. Nid oes newid i bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch uchafswm y ffi dysgu ar gyfer cyrsiau addysg uwch cymhwysol.

Cynnwys cynlluniau mynediad a chyfle

Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015 yn nodi'r trefniadau presennol ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad gan Weinidogion Cymru ar gyfer sefydliadau rheoleiddiedig yng Nghymru. Mae'r rheoliadau hyn yn pennu bod yn rhaid i gynllun ffi a mynediad nodi amcanion y sefydliad o ran hyrwyddo cyfle cyfartal a hybu addysg uwch, a nodi hefyd y gyfran o'r incwm o ffioedd cymwys sy'n cael ei wario ar yr amcanion hyn.

Bwriad y polisi yw i reoliadau a wneir o dan adran 35(1) o'r Bil drafft newydd adeiladu ar bolisi a bennir gan y rheoliadau presennol hyn. Byddwn yn ymgynghori â'r sector ar sut y gall cynnwys cynlluniau mynediad a chyfle wella cynnwys presennol cynlluniau ffioedd a mynediad. Yn benodol, cynigir bod y gofyniad i bennu cyfran yr incwm o ffioedd cymwys sy'n cael ei wario ar amcanion ehangu mynediad yn cael ei ddileu, yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu cynlluniau mynediad a chyfle fel y nodir yn fanylach ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol.

Cymeradwyo cynlluniau mynediad a chyfle

Mae Rheoliadau Addysg Uwch (Cynlluniau Ffioedd a Mynediad) (Cymru) 2015 yn nodi'r meini prawf cyfredol y mae'n rhaid i CCAUC eu hystyried wrth gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad.

Mae'r meini prawf a nodir yn y rheoliadau hyn yn cynnwys nifer o feysydd rheoleiddio lle bydd gan y Comisiwn ddyletswydd i fonitro cydymffurfiaeth ag amodau cofrestru parhaus, megis cynaliadwyedd ariannol y sefydliad, rheoli materion ariannol, ac ansawdd yr addysg y mae'n ei ddarparu. Bwriedir felly y bydd y rhain yn peidio â bod yn feini prawf i'w hystyried pan fydd y Comisiwn yn cymeradwyo cynllun mynediad a chyfle.

Bwriedir hefyd i ddileu unrhyw ofyniad i’r Comisiwn ystyried cyfran yr incwm o ffioedd cymwys sy’n cael ei wario ar amcanion ehangu mynediad fel ffactor allweddol i’w ystyried wrth gymeradwyo cynllun mynediad a chyfle.

Fel arall, y bwriad yw y bydd y meini prawf ar gyfer cymeradwyo cynlluniau mynediad a chyfle yn adeiladu ar y meini prawf yn rheoliadau 2015, gan ychwanegu gofyniad i gymryd camau i leihau’r bylchau mewn cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol berthnasol rhwng personau o wahanol grwpiau (fel y nodir yn adran 35(3)(c)). Bydd hyn yn amodol ar ymgynghori pellach gyda’r sector er mwyn sicrhau y gall cynlluniau mynediad a chyfle weithredu mor effeithiol â phosibl.

Mae cynlluniau mynediad a chyfle yn ffurf ddatblygol o reoleiddio a goruchwylio’r sector addysg uwch yng Nghymru. Gall y cyfnod gorau posibl i gynllun mynediad a chyfle fod ar waith newid dros amser wrth i’r Comisiwn sicrhau bod y cynlluniau ar eu mwyaf effeithiol. Mae angen hyblygrwydd o ran union fanylion Cynlluniau Mynediad a Chyfle i fyfyrio ar newidiadau yn y dyfodol, er enghraifft, i’r sector addysg drydyddol neu’r boblogaeth myfyrwyr. Mae’r pŵer i bennu cyfnod hwyaf yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb i’r newidiadau hyn.

## Sicrhau ansawdd mewn addysg uwch

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 46(5) | Pŵer i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol cynnal asesiadau ac adroddiadau addysg uwch gydag ysbeidiau penodedig rhyngddynt. | Negyddol |
| 46(8) | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch yr amgylchiadau pan fo person i gael ei drin fel un sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 46 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i asesu, neu wneud trefniadau i asesu, ansawdd yr addysg a ddarperir gan ddarparwyr addysg uwch cofrestredig. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys ansawdd yr addysg a ddarperir ar ran darparwr addysg uwch cofrestredig, megis o dan fasnachfraint neu drefniant is-gontractio.

Mae adran 46(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r ysbeidiau lleiaf a ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr addysg uwch cofrestredig rhwng cynnal asesiadau ansawdd, ac i ragnodi'r cyfnod y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau asesu oddi mewn iddo.

Mae adran 46(8) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu amgylchiadau lle y dylai neu na ddylai darparwr allanol gael ei drin fel petai'n darparu'r cyfan neu ran o gwrs ar ran sefydliad cofrestredig. Mae gan Weinidogion Cymru bŵer sy'n cyfateb i hwnnw yn adran 46(8) o dan adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Diben a bwriad y polisi**

<u>Ysbeidiau rhwng cyfnodau asesu addysg uwch</u>

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu i reoliadau nodi y dylai asesiadau addysg uwch gael eu cynnal o leiaf unwaith bob chwe blynedd. Mae hyn yn gyson â fframwaith sicrhau ansawdd cyfredol CCAUC, a hefyd â chylch arolygu arferol Estyn mewn rhannau eraill o'r sector addysg ôl-orfodol.

<u>Darparwyr allanol</u>

Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, trwy gyfrwng rheoliadau, yr amgylchiadau lle y mae person i'w drin, neu nad yw i gael ei drin, fel pe bai'n gyfrifol am ddarparu cwrs addysg ar ran sefydliad rheoleiddiedig. Er nad oes bwriad i wneud rheoliadau mewn perthynas â'r mater hwn ar unwaith, ystyrir na ddylid trin darlithwyr neu diwtoriaid unigol fel rhai sy'n gyfrifol am ddarparu cwrs addysg ar ran sefydliad rheoleiddiedig. Nid oes rheoliadau wedi'u gwneud eto o dan y pŵer cyfatebol yn adran 17(4)(a) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.Mae'r pwerau hyn yn cwmpasu materion technegol a manwl yn bennaf sy'n ymwneud â sicrwydd ansawdd mewn addysg uwch.

Gall y bydd angen newid y pŵer i bennu'r ysbaid lleiaf rhwng asesiadau ansawdd addysg uwch (adran 46(5)) o bryd i'w gilydd mewn ymateb i argaeledd adnoddau newidiol neu asesiadau risg o ran ansawdd yn y sector addysg uwch.

Dim ond mewn amgylchiadau brys neu annisgwyl y bydd y pŵer i bennu amgylchiadau lle y dylid, neu na ddylid, trin darparwr allanol fel pe bai’n darparu’r cyfan neu ran o gwrs ar ran sefydliad cofrestredig, os a phan fydd dulliau newydd o drefniadau partneriaeth ar gyfer darparu cyrsiau addysg uwch yn datblygu yn y dyfodol.

## Arolygu addysg bellach a hyfforddiant

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 49(1)(f) | Pŵer i bennu addysg a hyfforddiant y mae'n rhaid i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant eu harolygu (yn ychwanegol at addysg a hyfforddiant a nodir ar wyneb y Bil drafft). | Negyddol |
| 49(4) | Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â'r ysbeidiau rhwng cyfnodau arolygu ac adrodd. | Negyddol |
| 53(1) | Pŵer i roi swyddogaethau pellach i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad â'r addysg a'r hyfforddiant a ddisgrifir yn adran 49(1). | Negyddol |
| 55(9) | Pŵer i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â'r rhwymedigaethau i roi gwybodaeth i'r Prif Arolygydd mewn cysylltiad ag arolygiad; a'i gwneud yn ofynnol i adroddiadau arolygu gael eu cyhoeddi cyn diwedd cyfnod penodol. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 49 o'r Bil drafft yn nodi cylch gwaith arolygu'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae adran 49(1)(f) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu ffurfiau ychwanegol ar addysg a hyfforddiant i'w hychwanegu at y cylch gwaith hwnnw, yn ychwanegol at y rhai a restrir yn adran 49(1).

Mae adran 49(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r cyfnod byrraf posibl rhwng arolygiadau a'r amser pryd y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau ar arolygiadau, ac i ragnodi'r cyfnod ar gyfer cyhoeddi adroddiadau arolygu.

Mae adran 53 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu unrhyw swyddogaethau eraill sydd gan y Prif Arolygydd mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant a restrir yn adran 49(1).

Mae adran 55 yn nodi'r ddarpariaeth ar gyfer arolygiadau ardal, gan gynnwys y gofynion i gyrff a restrir yn adran 55(7) ddarparu gwybodaeth i'r prif arolygydd. Mae adran 55(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu rhwymedigaethau ychwanegol i ddarparu gwybodaeth i'r Prif Arolygydd mewn perthynas ag arolygiadau ardal, yn ogystal â'r cyfnod pryd y mae'n rhaid cyhoeddi adroddiadau o arolygiadau ardal.

Ar hyn o bryd mae Gweinidogion Cymru yn dal pwerau gwneud rheoliadau tebyg i'r holl bwerau a restrwyd uchod o dan ran 4 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

**Diben a bwriad y polisi**

<u>Cylch gwaith a swyddogaethau eraill y Prif Arolygydd</u>

Bwriad y pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 49(1)(f) ac adran 53(1) yw ymestyn neu egluro cylch gwaith y Prif Arolygydd mewn ymateb i fathau newidiol o ddarpariaeth yn y sector addysg a hyfforddiant. Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu defnyddio'r pwerau hyn ar hyn o bryd pan ddaw'r Ddeddf i rym. Mae'r pŵer hwn yn angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer y dyfodol, ac efallai y bydd ei angen er mwyn i Estyn allu arolygu addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon darparwyr ôl-orfodol, yn yr un modd â dyletswyddau presennol Estyn i arolygu hyfforddiant

gwaith ieuenctid a gwaith cymunedol neu addysg gychwynnol athrawon ar gyfer ysgolion. Er enghraifft, yr opsiwn o ddysgu proffesiynol ar gyfer y sectorau ôl-orfodol yn dilyn adroddiad yr astudiaeth gwmpasu ym mis Rhagfyr 2019 a argymhellodd addasu’r trefniadau ar gyfer cymeradwyo cymwysterau addysgu a sicrhau ansawdd y cyrsiau er mwyn iddynt gyd-fynd â’r rhai ar gyfer ysgolion.

Cyfnodau arolygu ac adroddiadau

Mae Rheoliadau Addysg (Diwygiadau ynglŷn â’r Ysbeidiau rhwng Arolygiadau Addysg a Hyfforddiant) (Cymru) 2020, sydd i fod i ddod i rym ar 1 Medi 2020, yn ei gwneud yn ofynnol i arolygiadau gael eu cynnal unwaith bob chwe blynedd ar ôl cwblhau’r cyfnod arolygu sy’n dod i ben ar 31 Awst 2024. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar yr ysbaid rhwng cyfnodau arolygu’n newid.

Mae Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001 yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau arolygu gael eu gwneud o fewn cyfnod o 55 o ddiwrnodau gwaith o’r dyddiad y cwblheir yr arolygiad neu’r arolygiad ardal neu, os oes angen darparu cyfieithiad i’r Gymraeg neu’r Saesneg, o fewn cyfnod o 65 o ddiwrnodau gwaith o’r dyddiad hwnnw. Nid yw polisi Llywodraeth Cymru ar adroddiadau arolygu wedi newid.

Rhwymedigaethau i roi gwybodaeth i’r Prif Arolygydd

Bwriedir i’r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 55(9) sicrhau bod y Prif Arolygydd yn gallu cael yr holl wybodaeth y mae arno ei hangen yn y broses o gynnal arolygiad ardal. Gall hyn gynnwys gofyn am wybodaeth gan bersonau neu gyrff nad ydynt fel arfer yn ddarostyngedig i arolygiadau addysg a hyfforddiant. Dim ond mewn achosion lle mae’r Prif Arolygydd yn nodi bod angen gwybodaeth yn ystod arolygiad o ardal na fyddai efallai’n gallu ei chael trwy ei bwerau fel y nodir yn y Bil, y mae bwriad gan Lywodraeth Cymru i ddefnyddio’r pŵer hwn. Mae’r pwerau hyn yn cwmpasu materion technegol a manwl yn bennaf sy’n ymwneud ag arolygu addysg bellach a hyfforddiant.

Gall y bydd angen newid y pwerau i bennu’r ysbaid byrraf posibl rhwng archwiliadau a’r cyfnod amser i gyhoeddi adroddiadau o bryd i’w gilydd mewn ymateb i argaeledd adnoddau newidiol neu asesiadau risg o ran ansawdd yn y sector addysg a hyfforddiant.

Gall y bydd angen y pwerau i ddiwygio neu egluro cylch gwaith y Prif Arolygydd, ac i wneud darpariaeth sy’n ymwneud â darparu gwybodaeth yn achos arolygiadau ardal, mewn ymateb i newidiadau nas rhagwelwyd yn nhrefniadaeth, strwythur, neu gyllid addysg a hyfforddiant yng Nghymru ynghylch sicrhau ansawdd ac arolygu prentisiaethau uwch, gan gynnwys prentisiaethau gradd.

## Adolygu rheoliadau a phenderfyniadau

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 71(3) | Dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag adolygiadau o benderfyniadau. Er enghraifft, manylion am rôl yr adolygydd penderfyniadau a'r weithdrefn i'w dilyn (gweler is-adran (4)). | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 71 yn nodi swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â phenodi person neu banel i gynnal adolygiadau o benderfyniadau. Caiff sefydliad ofyn am adolygiad pan fydd y Comisiwn yn defnyddio'r pwerau a ganlyn:

- Gwrthod cofrestru darparwr (adran 11).
- Gosod neu amrywio amod cofrestru parhaus penodol (adran 15).
- Cyfarwyddo sefydliad mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag amodau cofrestru parhaus (adran 25).
- Symud sefydliad o gategori o'r gofrestr (adran 27).
- Pennu'r dyddiad y mae sefydliad i'w dynnu o gategori o'r gofrestr (adrannau 28 a 29).
- Rhoi hysbysiad yn gwrthod cynllun mynediad a chyfle arfaethedig (adran 36).
- Rhoi hysbysiad yn gwrthod amrywiad arfaethedig i gynllun mynediad a chyfle (adran 36).
- Rhoi hysbysiad yn gwrthod cymeradwyo cynllun mynediad a chyfle newydd (adran 40).
- Cyfarwyddo sefydliad mewn cysylltiad â methu â chydweithredu â'r Comisiwn neu gorff dynodedig fel sy'n ofynnol o dan adran 65.

Mae adran 71(3) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth trwy reoliadau mewn cysylltiad â ffurf, cynnwys a phroses cynnal adolygiadau.

Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru yn dal dyletswydd debyg i wneud darpariaeth o'r fath mewn perthynas ag adolygu penderfyniadau CCAUC o dan adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 71(4) yn nodi'r materion y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 71(3), ymhlith pethau eraill, ddarparu ar eu cyfer:

- Ar ba sail y gall adolygydd penderfyniadau wneud argymhellion
- Y mathau o argymhellion y gellid eu gwneud
- O fewn pa gyfnod y gellid gwneud cais am adolygiad
- Y weithdrefn i'w dilyn gan yr adolygydd/adolygwyr
- Y camau i'w cymryd gan y Comisiwn a/neu Weinidogion Cymru yn dilyn adolygiad

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori ar bob un o'r materion uchod wrth ddatblygu'r rheoliadau hyn.Mae manylion y broses adolygu penderfyniadau yn rhai

technegol a gweithdrefnol ar y cyfan, a gall y bydd angen eu diwygio o bryd i'w gilydd gan fod arfer da yn cael ei ddatblygu gan y Comisiwn mewn perthynas ag adolygiadau o benderfyniadau.

## Monitro cynaliadwyedd ariannol

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 72(1)(c) | Pŵer i bennu darparwyr addysg (yn ychwanegol at y rhai a nodir ar wyneb y Bil) y mae'n rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol mewn perthynas â hwy. | Negyddol |
| 72(2) | Pŵer i ddarparu ar gyfer eithriadau i'r ddyletswydd i fonitro cynaliadwyedd ariannol sefydliadau a sefydliadau cofrestredig yng Nghymru o fewn y sector AB a ariennir gan y Comisiwn. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 72 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar gynaliadwyedd ariannol rhai darparwyr addysg drydyddol. O dan y ddyletswydd, rhaid i'r Comisiwn fonitro cynaliadwyedd ariannol darparwyr a sefydliadau cofrestredig yng Nghymru yn y sector addysg bellach nad ydynt wedi'u cofrestru ond sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn.

Mae'r pwerau o dan adran 72(2) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud eithriadau wrth gymhwyso'r ddyletswydd monitro ar gyfer sefydliadau neu fathau o sefydliadau yn y categorïau hyn.

Mae adran 72(1)(c) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymestyn y ddyletswydd monitro i fathau eraill o ddarparwyr addysg drydyddol nad ydynt yn cael eu nodi ar wyneb y Bil.

**Diben a bwriad y polisi**

Bydd y pwerau hyn yn sicrhau y gellir ymestyn dyletswydd y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar y cynaliadwyedd ariannol, os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, i ddarparwyr addysg drydyddol heblaw am sefydliadau neu sefydliadau cofrestredig yng Nghymru o fewn y sector addysg bellach sydd heb eu cofrestru ond sy'n cael eu hariannu gan y Comisiwn. Byddai hyn yn caniatáu i unrhyw ddarparwyr neu grwpiau o ddarparwyr a allai fod yn derbyn symiau sylweddol o arian oddi wrth y Comisiwn ond nad ydynt yn dod o dan y categorïau hyn gael eu dwyn o fewn cwmpas y ddyletswydd.

Mae'r pwerau hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud eithriadau wrth gymhwyso'r ddyletswydd ar gyfer sefydliadau neu fathau o sefydliadau o fewn y categorïau a bennir ar wyneb y Bil. Gallai hyn, er enghraifft, ganiatáu i'r ddyletswydd gael ei datgymhwyso i'r Brifysgol Agored a fyddai, pe bai'r sefydliad yn cofrestru gyda'r Comisiwn, yn destun monitro cyfatebol gan y Swyddfa i Fyfyrwyr yn rhinwedd ei statws fel darparwr addysg uwch cofrestredig yn Lloegr. Byddai hyn yn osgoi dyblygu diangen a gwrthdaro posibl mewn trefniadau monitro.

Mae’r pwerau rheoleiddio hyn yn darparu dull o ddiogelu’r darpariaethau a nodir o dan adran 72 o’r Bil drafft yn y dyfodol a sicrhau nad oes bylchau yn y modd y cymhwysir y ddyletswydd.

## Sicrhau a chyllido addysg drydyddol

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 80(3) | Pŵer i bennu categorïau o sefydliadau cofrestredig y gall y Comisiwn roi cymorth ariannol iddynt mewn perthynas â gwariant a wynebir at ddibenion darparu addysg uwch a chyfleusterau neu weithgareddau sy'n gysylltiedig â darparu addysg uwch. | Cadarnhaol |
| 80(4) | Pŵer i bennu'r gofynion sydd i'w bodloni gan gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon cyn y gall y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol i sefydliad mewn perthynas â darparu'r cwrs hwnnw. | Negyddol |
| 81(1) | Pŵer i bennu cwrs addysg uwch penodol neu ddisgrifiad o gwrs addysg uwch y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol mewn perthynas ag ef. | Negyddol |
| 88(5) | Pŵer i wneud amod mai dim ond ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau penodol y gellir sicrhau cymorth ariannol ar gyfer addysg a hyfforddiant pellach. Caiff rheoliadau ddarparu ar gyfer eithriadau i'r gofyniad i fod yn gofrestredig. | Cadarnhaol |
| 89(5) | Pŵer i ddarparu eithriadau i ddyletswydd y Comisiwn i osod amod ariannu yn gwahardd codi ffioedd gan ddarparwyr i bersonau o dan 19 oed mewn perthynas â darparu AB a hyfforddiant. | Cadarnhaol |
| 94(3) | Pŵer i wneud amod na chaiff y Comisiwn ond darparu adnoddau ariannol mewn perthynas â gwariant a wynebir mewn cysylltiad â darparu prentisiaeth Gymreig gymeradwy i sefydliadau a gofrestrwyd mewn categorïau a bennir yn y rheoliadau. | Cadarnhaol |
| 95(4) | Pŵer i bennu categorïau cofrestru y mae'n rhaid cofrestru sefydliad ar eu cyfer cyn y gall y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol i'r sefydliad mewn perthynas â gwariant at ddibenion (neu mewn cysylltiad ag) ymchwil neu arloesi. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pwerau o dan adrannau 80(3), 88(5), 94(3) a 95(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu categorïau o sefydliadau cofrestredig sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn ar gyfer cefnogi:

- addysg uwch a gweithgareddau cysylltiedig (80(3))
- addysg bellach a hyfforddiant a gweithgareddau cysylltiedig (88(5))
- prentisiaethau Cymreig cymeradwy a gweithgareddau cysylltiedig (94(3))
- ymchwil ac arloesi a gweithgareddau cysylltiedig (95(4)).

Mae'r pŵer o dan adran 80(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu o dan ba amgylchiadau na chaiff y Comisiwn ddarparu cyllid mewn perthynas â chyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon.

Mae'r pŵer o dan adran 81(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrsiau addysg uwch penodol neu ddisgrifiadau o gyrsiau o'r fath y gellir eu hariannu gan y Comisiwn (h.y. cyrsiau addysg uwch sy'n gymwys i gael cyllid).

Mae'r pŵer o dan adran 89(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu eithriadau i'r gwaharddiad ar ffioedd a godir ar ddysgwyr o dan 19 oed mewn perthynas â darpariaeth addysg bellach a hyfforddiant.

**Diben a bwriad y polisi**

<u>Cyllid addysg uwch a hyfforddiant cychwynnol i athrawon</u>

Mae adran 80 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu categorïau penodol o sefydliadau cofrestredig, at ddibenion cefnogi addysg uwch a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau o'r fath. Mae adran 80(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau o sefydliadau cofrestredig sy'n gymwys i gael cyllid oddi wrth y Comisiwn o dan yr adran hon (y "sefydliadau penodedig"). Bwriad y polisi yw y bydd angen i ddarparwyr addysg uwch gofrestru gyda'r Comisiwn yn y categori cofrestru "Uwch" arfaethedig er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn.

Gall cyrsiau ar gyfer hyfforddiant cychwynnol i athrawon a ddarperir gan sefydliadau penodol gael eu hariannu gan y Comisiwn o dan adran 80 o'r Bil. Mae adran 80(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu gofynion penodol sydd i'w bodloni trwy gwrs hyfforddiant cychwynnol i athrawon cyn y gall y Comisiwn ddarparu cymorth ariannol i sefydliad penodedig mewn perthynas â darparu'r cwrs hwnnw. Bwriad y polisi yw na ddylai'r Comisiwn ariannu cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon oni bai eu bod wedi'u hachredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg.

Mae adran 81 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu darpariaeth cyrsiau addysg uwch penodedig sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru neu ar gyfer pobl sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru. Mae adran 81(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu cyrsiau o'r fath trwy gyfeirio, ymhlith materion eraill, at y gofynion sydd i'w bodloni gan y cwrs; y disgrifiad o'r person sy'n darparu'r cwrs; a'r cymhwyster y mae'r cwrs yn arwain ato. Bwriad y pŵer yw sicrhau y gellir mynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth pe bai'r angen yn codi. Gall bylchau yn y ddarpariaeth ddeillio o'r ffaith nad oes sefydliadau penodol (fel y'u diffinnir yn adran 80(3)) yn gallu diwallu

angen a nodwyd. Er enghraifft, yr angen i ddarparu cwrs arbenigol yng Nghymru neu i'w gynnal gan nifer fach o fyfyrwyr sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru, ac na fydd o bosibl yn gost-effeithiol i sefydliadau penodol eu darparu. Dylid ystyried y pwerau hyn fel pwerau wrth gefn.

Ariannu addysg bellach a hyfforddiant

Adran 88(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, i ddarparu mai dim ond i sefydliadau sydd wedi'u cofrestru mewn categorïau penodol y gellir sicrhau cymorth ariannol ar gyfer addysg bellach a hyfforddiant.

Yn y tymor byr, bwriad y polisi yw peidio â gweithredu system gofrestru ar gyfer darparwyr addysg bellach a hyfforddiant (gweler 'categorïau cofrestru'). Fodd bynnag, gall trefniadau rheoleiddio newid dros amser ac yn y dyfodol gall system gofrestru sy'n gymwys i ddarparwyr addysg bellach a hyfforddiant fod ar waith. Pe bai'r angen yn codi, bydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu'r categorïau o sefydliadau cofrestredig sy'n gymwys i dderbyn cyllid gan y Comisiwn o dan yr adran hon.

Bydd y rheoliadau o dan adran 89(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu eithriadau i ddyletswydd y Comisiwn i osod amod ar gyfer ariannu yn gwahardd codi ffioedd gan ddarparwyr i bersonau o dan 19 oed mewn perthynas â darparu addysg bellach a hyfforddiant. Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i nodi o dan ba amgylchiadau y bydd modd i ddarparwr addysg bellach godi ffi ar gyfer dysgwyr 16-19 oed yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried amgylchiadau lle mae cyfiawnhad dros sicrhau bod darparwyr addysg bellach a hyfforddiant yn codi ffioedd mewn perthynas â darparu addysg bellach a hyfforddiant i bobl ifanc 16-19 oed; er enghraifft, i dalu costau teithiau maes dewisol neu ymweliadau tramor. Bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar faterion o'r fath cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon.

Ariannu prentisiaethau

Mae adran 94 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu'r ddarpariaeth o brentisiaethau Cymreig cymeradwy neu faterion cysylltiedig. Mae adran 94(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol mai dim ond ar gyfer gwariant a wynebir mewn cysylltiad â darparu prentisiaeth Gymreig gymeradwy i sefydliadau a gofrestrwyd mewn categorïau a bennir yn y Rheoliadau y gall y Comisiwn darparu adnoddau ariannol. Gan y gall trefniadau cofrestru newid dros amser, bwriad y polisi yw sicrhau bod gallu'r Comisiwn i ariannu darparwyr prentisiaethau yn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn y dyfodol i'r categorïau o ddarparwyr cofrestredig sy'n gymwys i gael mynediad at gyllid o'r fath.

Ariannu ymchwil ac arloesi

Mae adran 95 yn caniatáu i'r Comisiwn ariannu categorïau penodol o sefydliadau sydd wedi'u cofrestru gyda'r Comisiwn, at ddibenion cefnogi ymchwil neu arloesi. Mae adran 95(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r categorïau o sefydliadau cofrestredig sy'n gymwys i gael cyllid oddi wrth y Comisiwn o dan yr adran hon. Bwriad y llywodraeth yw y bydd sefydliadau sy'n cofrestru yn y categori "Uwch" yn gymwys i dderbyn cyllid.

Bydd y pwerau o dan adrannau 80(3), 88(5), 94(3) a 95(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd gwahanol gategorïau o sefydliadau cofrestredig ar gyfer derbyn cyllid gan y Comisiwn mewn perthynas ag addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant, prentisiaethau Cymreig cymeradwy ac ymchwil ac arloesi yn eu tro. Bydd y gallu i addasu'r sefydliadau penodedig yn sicrhau y gall cymhwysedd i gael cyllid addasu i amgylchiadau sy'n newid a chyd-fynd â'r trefniadau rheoleiddio a gymhwysir at ddarparwyr addysg drydyddol sy'n cofrestru gyda'r Comisiwn.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 80(4) yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynglŷn â chymhwysedd cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon i gael eu hariannu gan y Comisiwn ac yn galluogi'r trefniadau ar gyfer achredu cyrsiau ar gyfer addysg gychwynnol i athrawon gael eu haddasu o bryd i'w gilydd.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 81(1) yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynghylch cymhwysedd cyrsiau addysg uwch penodol i gael eu hariannu gan y Comisiwn. Mae'rcyrsiau y gellir fod angen eu hariannu yn debygol o newid dros amser yn dibynnu ar ffactorau allanol fel argaeledd cyrsiau a ddarperir gan ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru yn y categori Uwch ac anghenion newidiol dysgwyr, cymdeithas Cymru ac economi Cymru.

Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 89(5) yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau ynghylch yr amgylchiadau lle y gallai fod yn briodol i ddarparwyr addysg bellach a hyfforddiant godi ffioedd ar ddysgwyr 16-19 oed. Yn wyneb y gwaharddiad cyffredinol ar godi ffioedd dysgwyr o'r fath, mae'r pŵer hwn yn cydnabod y gallai costau y tu hwnt i'r rhai sy'n gysylltiedig â darpariaeth cyrsiau gael eu hysgwyddo gan ddarparwyr, o dan rai amgylchiadau, e.e. costau teithiau maes dewisol ac ymweliadau tramor.

## Prentisiaethau

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 98(4) | Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu'r amodau y mae'n rhaid i brentisiaeth ei bodloni i fod yn brentisiaeth Gymreig gymeradwy. | Cadarnhaol |
| 99(1)(c) | Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu amodau pellach y mae'n rhaid i gytundeb prentisiaeth eu bodloni i fod yn gytundeb prentisiaeth Cymreig gymeradwy. | Cadarnhaol |
| 100(1) | Pŵer Gweinidogion Cymru i bennu'r disgrifiad o'r hyn sydd wedi'i gategoreiddio fel prentisiaeth amgen yng Nghymru. | Cadarnhaol |
| 106(6) | Pŵer Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gynnwys rhagor o wybodaeth yn y gofrestr o fframweithiau prentisiaethau. | Negyddol |
| 107(3) | Pŵer i Weinidogion Cymru awdurdodi'r Comisiwn i godi ffi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth. | Negyddol |
| 112(5) | Pŵer i wneud darpariaeth sy'n cymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 4 (prentisiaethau) gydag addasiadau i gytundeb prentisiaeth pan fo person yn ymgymryd â chyflogaeth y Goron neu berson sy'n gweithio (neu'n bwriadu gweithio) o dan gytundeb o'r fath. | Negyddol |

### Disgrifiad o'r pwerau

Mae'r pwerau uchod yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu'r paramedrau sy'n angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r system brentisiaethau newydd. Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu a diwygio:

- yr amodau y mae'n rhaid i brentisiaeth eu bodloni er mwyn bod yn *brentisiaeth Gymreig gymeradwy;*
- yr amodau pellach y mae'n rhaid i gytundeb prentisiaeth eu bodloni er mwyn bod yn gytundeb prentisiaeth Cymreig gymeradwy;
- y disgrifiad o *brentisiaeth Gymreig amgen.*

Yn ogystal, mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i:

- ychwanegu gofynion gwybodaeth newydd i'r gofrestr o brentisiaethau Cymreig cymeradwy a gedwir gan y Comisiwn;
- awdurdodi'r Comisiwn i godi ffi ar gyfer dyroddi tystysgrifau prentisiaeth;
- cymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn Rhan 4 o'r Bil drafft gydag addasiadau i gytundeb prentisiaeth lle mae person wedi'i gyflogi gan y Goron neu i berson sy'n gweithoi neu'n bwriadu gweithio dan gytundeb o'r fath.

### Diben a bwriad y polisi

Mae adran 98 o'r Bil yn diffinio prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r pŵer o dan adran 98(4) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi gofynion pellach y mae'n rhaid i brentisiaeth eu bodloni er mwyn bod yn brentisiaeth Gymreig gymeradwy. Diben y pŵer hwn yw sicrhau bod yr hyn a olygir wrth brentisiaeth

Gymreig gymeradwy yn gallu cael ei ddiwygio dros amser ac yn parhau'n briodol yng ngoleuni newidiadau yn yr amgylchedd gwaith. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i ymateb i newidiadau yn yr economi neu i'r modd y darperir prentisiaethau.

Mae adran 99 yn diffinio cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae adran 99(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu amodau pellach y mae'n rhaid eu bodloni gan brentisiaeth Gymreig gymeradwy y tu hwnt i'r rheini sydd wedi'u nodi ar wyneb y Bil. Bwriedir i'r pŵer hwn sicrhau bod y diffiniad o'r hyn a olygir wrth gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy yn parhau'n gyfredol. Er enghraifft, gellid ei ddefnyddio i bennu y dylai cytundeb o'r fath gynnwys neu gyfeirio at ddatganiad o fanylion cyflogaeth a roddwyd o dan adran 1 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996.

Mae adran 100 yn diffinio prentisiaeth Gymreig amgen. Mae'r pŵer o dan adran 100(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n pennu ac yn diwygio'r disgrifiad o brentisiaeth Gymreig amgen.Gellir defnyddio'r pŵer hwn i bennu trefniadau gwaith amgen pan fo person yn gweithio fel person hunangyflogedig neu i ymdrin â sefyllfaoedd pan fo unigolyn a oedd yn gweithio o dan gytundeb prentisiaeth wedi'i ddiswyddo yn ystod y brentisiaeth, gan atgynhyrchu'r darpariaethau cyfatebol sy'n sail i'r system brentisiaethau bresennol.

Mae adran 106 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn gadw cofrestr o'r fframweithiau prentisiaethau a gyhoeddir o dan adran 105 o'r Bil drafft. Bydd y pŵer o dan adran 106(6) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu gwybodaeth newydd i'r gofrestr gyhoeddedig o fframweithiau prentisiaethau. Mae hyn yn golygu y gellir addasu'r gofrestr a gedwir gan y Comisiwn dros amser er mwyn ymateb i newidiadau economaidd neu gymdeithasol.

Mae adran 107 o'r Bil drafft yn caniatáu i'r Comisiwn ddyroddi tystysgrif os yw person wedi cwblhau prentisiaeth Gymreig gymeradwy ac yn gwneud cais i'r Comisiwn am dystysgrif. Mae hefyd yn darparu na chaiff y Comisiwn godi ffi am ddyroddi tystysgrif brentisiaeth neu gopi o dystysgrif ond os yw'r rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn caniatáu ar gyfer ffi. Bydd y pŵer o dan adran 107(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru awdurdodi codi ffi gan y Comisiwn ar gyfer dyroddi tystysgrifau prentisiaethau neu gopi o dystysgrif, ac i bennu'r ffi y gellir ei godi. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru'n gallu codi ffi i ddyroddi tystysgrif brentisiaeth neu gopi o dystysgrif, ac mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r Comisiwn barhau i wneud hynny.

Mae adran 112 o'r Bil drafft yn darparu y caiff person a gyflogir fel un o weision y Goron ymgymryd â chytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Mae'r pŵer o dan 112(5) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â chytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy a gweision y Goron. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu gwneud darpariaeth yng ngoleuni statws cyflogaeth gwahanol gweision y Goron ac yn caniatáu i elfennau o Ran 4 y Bil drafft gael eu cymhwyso i weision y Goron gydag addasiadau.

Mae angen i brentisiaethau allu ymateb yn hyblyg i newidiadau mewn technoleg ac i anghenion y farchnad. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau yn adrannau 98(4), 99(1)(c) a 100(1) yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i Weinidogion Cymru allu parhau i oruchwylio'n strategol yr hyn a olygir wrth brentisiaeth Gymreig gymeradwy, cytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy a phrentisiaeth Gymreig amgen. Bydd y pwerau hyn yn sicrhau bod ansawdd a chadernid y system brentisiaethau Cymreig

yn cael eu cynnal yn y dyfodol drwy bennu unrhyw ofynion pellach y gallai fod angen eu bodloni gan brentisiaeth neu gytundeb prentisiaeth er mwyn bod yn brentisiaeth Gymreig gymeradwy neu'n gytundeb prentisiaeth Gymreig gymeradwy. Gallai'r gofynion hyn newid dros amser. Mae adran 112(5) yn angenrheidiol er mwyn caniatáu i elfennau o Ran 4 gael eu cymhwyso i weision y Goron gydag unrhyw addasiadau angenrheidiol yng ngoleuni eu statws cyflogaeth annodweddiadol. Mae nifer o'r pwerau gwneud rheoliadau yn Rhan 4 o'r Bil drafft yn ailddeddfu neu'n adeiladu ar y pwerau gwneud rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn Neddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009, a gaiff eu defnyddio i weithredu'r system brentisiaethau bresennol yng Nghymru.

Gallai fod angen newid elfennau o'r system reoleiddiol sy'n sail i brentisiaethau Cymreig cymeradwy dros amser wrth i fframweithiau prentisiaethau esblygu i ddiwallu anghenion newidiol economi Cymru. Mae'r pwerau gwneud rheoliadau o dan adrannau 106(6) a 107(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud addasiadau i ofynion gwybodaeth y gofrestr prentisiaethau a'r ffioedd y gall y Comisiwn eu codi ar gyfer dyroddi tystysgrifau prentisiaethau, a allai newid dros amser.

## Cwynion dysgwyr

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 116(2) | Pŵer i bennu sefydliadau ar wahân i’r rhai a nodir ar wyneb Deddf Addysg Uwch 2004 y gellir gwneud cwynion mewn perthynas â hwy gan fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr ac a ystyrir o dan y cynllun cwynion myfyrwyr o dan y Ddeddf honno. | Negyddol |

**Disgrifiad o’r pwerau**

**Mae adran 116(2) yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Addysg Uwch 2004 mewn perthynas â’r cynllun cwynion myfyrwyr. Mae’n diwygio ac yn mewnosod testun newydd yn adrannau 11 (sefydliadau cymhwysol) a 12 (cwynion cymhwysol) o Ddeddf 2004. Mewnosodir adrannau 11(2)-(5) a 12(2A. Mae adran 11(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu sefydliad cymhwysol at ddibenion y cynllun cwynion myfyrwyr, ac Adran 12(2A) yn ymestyn y diffiniad o gwynion cymhwysol.**

**Diben a bwriad y polisi**

Mae adran 13 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn caniatáu dynodi corff i weithredu cynllun cwynion myfyrwyr. Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yw’r corff gweithredu dynodedig ar gyfer ymdrin â chwynion myfyrwyr nad ydynt wedi’u datrys yng Nghymru a Lloegr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru a’r Ysgrifennydd Gwladol yn y drefn honno. Ar hyn o bryd, mae rôl Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol yn ymestyn i ‘sefydliadau cymhwysol’ yn ôl diffiniad Deddf 2004.

Bydd y pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, trwy reoliadau, sefydliad cofrestredig neu sefydliad yng Nghymru (ac eithrio sefydliad cofrestredig) sy’n cael adnoddau ariannol gan y Comisiwn yn unol ag adrannau 81(3)(a) (cyrsiau addysg uwch), 88(1)(a) (addysg bellach neu hyfforddiant), neu 94(1)(a) (prentisiaethau) o’r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil, fel sefydliad cymhwysol at ddibenion y cynllun cwynion myfyrwyr. Ni fydd Gweinidogion Cymru yn gallu pennu awdurdodau lleol mewn perthynas â’r ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion gan nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y darpariaethau penodedig

**Nod y polisi yw ymestyn cylch gwaith Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol a’r ehangder mynediad i’r cynllun cwynion i ddysgwyr sy’n ymgymryd â’r holl gyrsiau a gyllidir gan y Comisiwn fel y nodir. Bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda rhanddeiliaid ar fanylion ac ymarferoldeb ymestyn y cynllun cyn i’r rheoliadau gael eu gwneud. Bydd hyn yn galluogi cyflwyno darparwyr i’r cynllun cwynion myfyrwyr yn raddol, gan roi amser i Swyddfa’r Dyfarnwr Annibynnol a darparwyr unigol adeiladu eu capasiti.**

## Rhannu data

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 120(1)(l) | Pŵer i bennu personau heblaw'r rhai a nodir ar wyneb y Bil drafft fel personau sy'n gallu rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn. | Negyddol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 120 yn cynnwys rhestr o adrannau, cyrff a sefydliadau eraill y Llywodraeth a all rannu gwybodaeth gyda'r Comisiwn, at ddibenion arfer unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn. Caiff y Comisiwn hefyd roi gwybodaeth, am unrhyw fater mewn perthynas â'i swyddogaethau, i'r rhai a restrir yn yr adran hon ac unrhyw berson arall y mae'n credu ei fod yn briodol.

Caiff Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, bennu cyrff neu sefydliadau eraill y caniateir iddynt rannu gwybodaeth â'r Comisiwn o dan yr adran hon.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu cyrff neu sefydliadau eraill nad ydynt wedi'u crybwyll ar wyneb y Bil drafft a fydd yn gallu rhannu gwybodaeth â'r Comisiwn. Byddai hefyd yn caniatáu ar gyfer creu awdurdodau newydd neu ail-enwi neu ad-drefnu rhai presennol.

Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i addasu categorïau o bobl i rannu gwybodaeth yn ôl y gofyn. Mae'r pŵer yn gymharol fach gan nad yw'n effeithio ar y data sy'n cael ei rannu, dim ond y gallu i ychwanegu at y rhestr o'r rhai sy'n gallu ei rannu.

## Llywodraethu AU – offerynnau ac erthyglau Llywodraeth ar gyfer Corfforaethau Addysg Uwch yng Nghymru

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 125(2) | Pŵer i ddiwygio neu ddiddymu, trwy orchymyn, baragraffau 2 i 11 o Atodlen 7A i Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chynnwys yr offerynnau llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Uwch | Cadarnhaol |
| 126(2) | Pŵer i ddiwygio neu ddiddymu, trwy orchymyn, adran 125(2) i (4) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 sy'n ymwneud â chynnwys yr erthyglau llywodraethu ar gyfer Corfforaeth Addysg Uwch | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 125(2) yn gwneud darpariaeth i'r pwerau gwneud gorchymyn sydd eisoes gan Weinidogion Cymru o dan adran 124A(9) gael eu hymestyn i gynnwys Atodlen 7A yn gyfan ac eithrio paragraff 1. Mae Atodlen 7A yn nodi'r gofynion statudol ar gyfer cynnwys offerynnau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch a wneir gan y Cyfrin Gyngor. O dan adran 124A(9) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988, mae Gweinidogion Cymru yn gallu diwygio neu ddiddymu unrhyw rai o baragraffau 3 i 5 ac 11 o Atodlen 7A trwy orchymyn. Mae'r paragraffau hyn yn ymwneud ag aelodaeth o'r Gorfforaeth Addysg Uwch ac yn benodol, maint, cyfansoddiad a phenodiad aelodau'r Gorfforaeth. Mae paragraff 1 yn galluogi offeryn llywodraethu Corfforaeth Addysg Uwch i rymuso'r Gorfforaeth i newid ei henw gyda chydsyniad y Cyfrin Gyngor.

Mae adran 126(2) yn cyflwyno pŵer newydd a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru, trwy orchymyn, i ddiwygio neu ddiddymu adran 125(2) i (4) o Ddeddf 1988 sy'n ymwneud â chynnwys erthyglau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r darpariaethau hyn yn caniatáu i gyfarwyddiadau statudol cyfredol a roddir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch gael eu hadolygu, a'u diwygio neu eu diddymu os oes angen.  Bydd hyn yn sicrhau y gellir defnyddio dull cyson o ddiwygio a symleiddio dogfennau llywodraethu i bob sefydliad addysg uwch waeth beth fo'i sail gyfansoddiadol. Mae'r dull presennol o ddiwygio a symleiddio dogfennau llywodraethu sefydliadau addysg uwch yn seiliedig ar ganllawiau a gyhoeddwyd yn 2006. Roedd canllawiau 2006 yn canolbwyntio'n helaeth ar drefniadau prifysgolion siartredig nad ydynt yn destun gofynion statudol cyfatebol ar eu dogfennau llywodraethu.

Mae'r pwerau gwneud gorchymyn hyn yn sicrhau y gellir adolygu'r gofynion statudol presennol a osodir ar ddogfennau llywodraethu Corfforaethau Addysg Uwch, a'u diwygio lle bo angen er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac yn addas i'r diben.  Byddant hefyd yn caniatáu i'r gofynion statudol presennol gael eu hadolygu ar adeg pan fydd manylion llawnach am ofynion rheoleiddio'r Comisiwn mewn perthynas â llywodraethu sefydliadau addysg uwch yn hysbys.  Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r oruchwyliaeth bresennol o drefniadau llywodraethu mewn sefydliadau

addysg uwch yn gwanhau a bod buddiannau dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael eu diogelu.

## Y Brifysgol Agored

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 131 | Pŵer i wneud amod i'r Brifysgol Agored gael ei thrin fel sefydliad yng Nghymru at ddiben darpariaethau penodol o dan y Bil drafft hwn | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae'r pŵer yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n darparu ar gyfer trin y Brifysgol Agored fel sefydliad yng Nghymru at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf, neu a wneir o dan y Ddeddf. O dan y rheoliadau, gall Gweinidogion Cymru addasu effaith unrhyw ddarpariaeth benodedig i'r graddau y mae'n gymwys i'r Brifysgol Agored, boed hynny fel sefydliad yng Nghymru neu fel sefydliad cofrestredig, pe bai hynny'n digwydd.

**Diben a bwriad y polisi**

Mae'r adran hon yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i gymhwyso'r darpariaethau o dan y Bil drafft hwn i'r Brifysgol Agored. Bydd hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru drin y Brifysgol Agored fel sefydliad yng Nghymru. Gallai hyn fod er mwyn cymhwyso'r amodau cofrestru, y cynlluniau diogelu dysgwyr a darpariaethau eraill i'r Brifysgol Agored er mwyn sicrhau cyllid a gwarchodaeth i ddysgwyr yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau astudio gyda'r Brifysgol Agored.

Mae Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r Brifysgol Agored i benderfynu ar y defnydd mwyaf priodol o'r pŵer hwn mewn perthynas â chymhwyso gwahanol ddarpariaethau o dan y Bil drafft i'r Brifysgol Agored.

Y Brifysgol Agored yw'r darparwr addysg uwch mwyaf yn y DU, a'r unig ddarparwr addysg uwch mawr sy'n gweithredu ar draws pedair gweinyddiaeth y DU. Er bod gan y Brifysgol Agored bresenoldeb sylweddol yng Nghymru, nid yw'n sefydliad yng Nghymru at ddibenion adran 130 o'r Bil. Gallai newidiadau i'r cyllid a'r modd y rheoleiddir y Brifysgol Agored yng ngwledydd eraill y DU gael effaith ar y ffordd y mae'r Brifysgol Agored yn cael ei gyllido a'i reoleidido yng Nghymru..

Felly, mae'n fwy priodol defnyddio is-ddeddfwriaeth i gymhwyso darpariaethau yn y Bil drafft hwn i'r Brifysgol Agored mewn perthynas â darpariaeth y Brifysgol yng Nghymru ac i ddiwygio'r modd y mae'r Bil yn gymwys i'r Brifysgol Agored mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid ledled y DU.

## Amrywiol a chyffredinol

| Adran | Darpariaeth | Gweithdrefn |
|---|---|---|
| 76(4) | Pŵer i wneud darpariaeth ynghylch dynodi darparwyr na fyddent yn cael eu hystyried yn sefydliad at ddibenion y Bil. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ynghylch ceisiadau i ddynodi, gwneud dynodiadau, tynnu dynodiad yn ôl ac effaith ei dynnu'n ôl. | Cadarnhaol |

**Disgrifiad o'r pwerau**

Mae adran 76 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparydd addysg uwch yng Nghymru yn 'sefydliad' at ddibenion y Bil drafft ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir o dan y Bil drafft hwnnw. Ni fyddai darparwr o'r fath fel arfer yn cael ei ystyried yn 'sefydliad' o dan y Bil. Caniateir i ddynodiad gael ei wneud ar gais gan y darparwr o dan sylw. Mae adran 76(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ceisiadau i ddynodi, gwneud dynodiadau a'u tynnu'n ôl, gan gynnwys materion sydd i'w hystyried wrth bwyso a mesur a ddylid gwneud dynodiad neu ei dynnu'n ôl, ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.

Mae adran 132 yn creu'r pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol neu drosiannol.

Mae adran 134 yn creu'r pŵer i ddod â darpariaethau i rym nad ydynt yn cael eu dwyn i rym gan y Bil.

**Diben a bwriad y polisi**

Gellir arfer y pŵer o dan adran 76 i ddynodi sefydliad sy'n darparu cyrsiau addysg uwch, ond nad yw'n ystyried ei hun yn "sefydliad" at ddibenion y Bil drafft hwn, ac mae'n bosibl serch hynny y byddai'n dymuno cael ei gofrestru. Bydd y rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr sy'n gwneud cais i Weinidogion Cymru am ddynodiad o'r fath ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth benodol ynghyd â'u cais. Caiff y rheoliadau hefyd bennu sut y mae cais i gael ei wneud (er enghraifft yn ysgrifenedig).

Mae adran 132 yn creu'r pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol neu drosiannol yn ôl y gofyn.

Mae adran 134 yn addas ar gyfer cychwyn trwy orchymyn er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r Bil drafft yn cael eu dwyn i rym ar adeg briodol ar ôl sefydlu'r Comisiwn. Gall hyn gynnwys dull 'graddol' o gychwyn er mwyn hwyluso proses bontio fwy esmwyth ar gyfer y sector addysg drydyddol ehangach.

Gall y gweithdrefnau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â gwneud dynodiadau neu eu tynnu'n ôl o dan adran 76 newid dros amser wrth i ddarparwyr gwahanol geisio dod i mewn i'r sector addysg drydyddol yng Nghymru. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i'r newidiadau.

Mae'r pwerau o dan adrannau 132 a 134 yn adlewyrchu arfer cyffredin ar gyfer gwneud darpariaeth ganlyniadol neu drosiannol a gorchmynion cychwyn.